
# Y Dinesydd

**Tachwedd 2013 Rhif 382 Papur Bro Dinas Caerdydd a'r Cylch Pris: 80 ceiniog**

# Dinesydd 40

## *Noson i ddathlu pen-blwydd papur bro hynaf Cymru yn 40 oed yng Nghlwb y Diwc!*

Cafwyd noson werth chweil o adloniant o dan arweiniad dwylo medrus Beti George yn y *Duke of Clarence* ar 1 Tachwedd. Syniad gwych oedd cael cyflwynydd proffesiynol fel hyn i lywio'r achlysur mor slic.



*Beti George*

Yn gefndir i gyfraniadau'r holl artistiaid roedd tafluniau o gloriau cyn-rifynnau o'r *Dinesydd*, a Beti'n sôn am rai o storïau mwyaf cofiadwy y papur dros y 40 mlynedd.

Mae'n debyg mai'r 'sgandal' fwyaf yn ei hanes fu'r ffwdan a gododd yn sgil cyhoeddi 'Dyddiadur Dyn Dŵad'. Fe ysgrifennodd gweinidog un o gapeli'r brifddinas ar y pryd at y Golygydd ynghylch y siom bod hanesion llanc ifanc yn diota a gamblo yn y ddinas yn cael ymddangos yn y papur bro, gan fynnu y dylai'r cyfraniadau hyn gael eu gwahardd. Drwy gyflwyniad gwych Dafydd Emyr, fel gog a symudodd i'r ddinas, cafwyd cipolwg crafog yn y noson ddathlu ar fywyd y llanc ifanc hwnnw, a'r hyn a gododd wrychyn rhai o ddarllenwyr *Y Dinesydd* ar y pryd. Daeth â sawl gwên i'n hwynebau.



*Dafydd Emyr*

Rhywun arall a symudodd o Gaernarfon i Gaerdydd yw'r Prifardd Rhys Iorwerth ac, fel y dywedodd Beti, roedd gan y brifddinas reswm i ddathlu pan enillodd Rhys y Gadair yn Eisteddfod Wrecsam yn 2011. Roedd y cerddi dwys a doniol a gyflwynodd ar yr achlysur hwn yn ein hatgoffa, fel y dywedodd ef ei hun, o ddeuoliaeth y ddinas a'r bywyd a gaiff ei adlewyrchu rhwng cloriau'r *Dinesydd*.



*Rhys Iorwerth*

Adlewyrchiad o'r bywyd hwnnw a holl ddigwyddiadau amrywiol Caerdydd oedd y cwis cyflym, hwyliog yng ngofal Aled Wyn, a drefnodd y noson, a llongyfarchiadau i dîm y 'Gwydrau Gweigion' ar ddod i'r brig.

Gigs cerddoriaeth yw arlwy arferol Clwb y Diwc ac roedd yr elfen honno yn bwysig yn y digwyddiad hwn. Cafwyd set fer, ond arbennig iawn, gan Catsgam a aeth â ni yn ôl i'r 'Riverside Cafe' a 'Cowbridge Road'. Os mai Beti George oedd Brenhines y noson, roedd Heather Jones yn Seren, gyda'i hanesion difyr am ei hieuenctid, ei phrofiadau a'i hangerdd dros berfformio yn Gymraeg. Llwyddodd Heather i ddistewi pob un o'r 120 yn y gynulleidfa gyda'i datganiad hudolus o 'Cwsg Osian'.



*Heather Jones*

I gloi'r noson, ymunodd aelodau o Gôrdydd mewn diweddglo hyfryd ac ymateb pawb ar y ffordd allan oedd eu bod wedi mwynhau'n arw. Mae'n werth cadw llygad ar ddigwyddiadau Clwb y Diwc – wyddoch chi byth beth allai ddigwydd, ac mae croeso i bawb!

**Glenys Llewelyn**

***Lluniau: Irfon Bennett***

## Y Dinesydd

Golygydd y rhifyn hwn:
**Alun Treharne**

Golygydd y rhifyn nesaf:
**Miranda Morton**

Anfonwch ddeunydd ar gyfer rhifyn Rhagfyr/Ionawr erbyn 27 Tachwedd i:
32 Stryd Arthur, Y Rhath,
Caerdydd CF24 1QR
Ffôn: 0771 3765692
e-bost: miranda.morton@btinternet.com

**MANYLION CYSYLLTU**

**Calendr y Dinesydd**
Dr E. Wyn James
16 Kelston Road, Caerdydd. CF14 2AJ
029 20628754
JamesEW@caerdydd.ac.uk

**Hysbysebion**
Bryan James
52 Highfields, Llandaf,
Caerdydd CF5 2QB
029 20 566731
db.james@ntlworld.com

**Dosbarthu copïau**
Huw Jones
22 Blaen-y-coed, Radur
Caerdydd, CF15 8RL
cartref: 029 20842811
symudol: 07985 174997

Gwefan Y Dinesydd:
www.dinesydd.com

Cyhoeddir y Dinesydd gan Bwyllgor y Dinesydd.
Nodir hawl y golygyddion i gwtogi ar erthyglau yn ôl y gofyn.

Argraffwyd gan
Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd

**Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.**


## Siopau lle gellir prynu'r Dinesydd

**SIOP Y FELIN**, Yr Eglwys Newydd
**SIOP PRIFYSGOL CYMRU**, 12 Stryd Fawr
**CABAN**, Pontcanna
**DERI STORES**, Rhiwbeina
**VICTORIA FEARN GALLERY**, Rhiwbeina
**HALLS**, Llandaf
**HALCYON DAZE**, Wellfield Road
**SIOP LYFRAU WINDSOR**, Penarth
**FOOD FOR THOUGHT**, Y Barri

# Merched y Wawr Bro Radur

Daeth nifer dda iawn o aelodau i gyfarfod mis Hydref. Croesawyd pawb gan ein Llywydd, Nia Jones, gan estyn croeso arbennig i aelodau newydd. Ar ôl y cyhoeddiadau a'r trefniadau, fe gyflwynodd Nia ein siaradwr gwadd – Lowri Haf Cooke.

Ganwyd Lowri yng Nghaerdydd a chafodd ei haddysg gynnar yn Ysgol y Wern ac Ysgol Gyfun Glantaf. Aeth i Brifysgol Aberystwyth i astudio Cymraeg a Daearyddiaeth, cyn gwneud ei MA mewn Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu. Ar ôl gadael y brifysgol bu'n gweithio fel ymchwilydd i Radio Cymru am ddeng mlynedd. Wedyn aeth i grwydro'r byd ac ymweld â sawl dinas gan sylweddoli bod Caerdydd hefyd yn ddinas lawn cymeriad, a chystal ag unrhyw brifddinas arall. Dechreuodd fynd ati i ysgrifennu llyfr o'r enw *Canllaw Bach Caerdydd* i wneud cyfiawnder â Chaerdydd. Aeth o gwmpas y brifddinas ac ysgrifennodd am y gwestai a'r tai bwyta, yr hanes a'r adloniant, y celfyddydau ayyb – y cwbl ar ein stepan drws yma yng Nghaerdydd. Roedd ei brwdfrydedd yn amlwg i bawb, ac fe fwynheuon ni bob munud o'i sgwrs. Dyma lyfr fyddai'n plesio fel anrheg Nadolig, dw i'n siwr!



*Lowri Cooke gyda rhai o brynwyr **Canllaw Bach Caerdydd**.*

Mrs Eirlys Davies a ddiolchodd i Lowri ar ein rhan ac ar ddiwedd noson hynod o ddifyr a diddorol roedd cynifer o'r aelodau am brynu copi o *Canllaw Bach Caerdydd*. Diflannodd y pentwr o gopïau oedd gan Lowri'n syth a'r diwrnod wedyn bu hi'n dosbarthu copïau ychwaengol i'r rhai oedd yn siomedig o fethu â chael un ar y noson.


mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

Cam wrth Gam
hyfforddiant blynyddoedd cynnar

**Eisiau gweithio gyda phlant ifanc?**

Dyma gyfle gwych ichi ennill cymhwyster **Diploma Lefel 3 CACHE mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant** yn y gweithle.

**Mae'r cynllun hyfforddi cenedlaethol yma yn cael ei gynnal gan Mudiad Meithrin, trwy ei is-gwmni Cam wrth Gam, o 1 Ebrill 2014 hyd 31 Mawrth 2015.**

Gwahoddir siaradwyr Cymraeg a dysgwyr da i ymgeisio am le ar y cynllun hyfforddi rhan-amser yma a leolir mewn cylchoedd meithrin, meithrinfeydd dydd neu ysgolion cynradd ledled Cymru.

Am becyn gwybodaeth ffoniwch: **01970 639 601**

neu e-bostiwch: post@camwrthgam.co.uk

neu lawrlwythwch becyn gwybodaeth llawn o'n gwefan:

**www.camwrthgam.co.uk**

**Dyddiad cau: 24 Ionawr, 2014**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Islwyn Griffiths
# 1920 – 2013

*Teyrnged yn angladd Islwyn ar 14 Hydref gan Graham Phillips. Agorodd â'r geiriau, 'Islwyn was a proud Welsh internationalist, a humanitarian and a remarkable man. He touched the lives of everyone he met.'*



Ganed Islwyn Griffiths yng nghymuned agos Ynys-hir, Y Rhondda, yn fuan wedi'r Rhyfel Byd Cyntaf. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Eilradd y Porth cyn mynd i Goleg y Brifysgol, Caerdydd. Gadawodd y coleg i wasanaethu yn yr Ail Ryfel Byd. Ymunodd â *Bomber Command* y Llu Awyr fel peilot yng Ngogledd Affrica a'r Eidal. Wedi'r rhyfel dychwelodd i'r brifysgol gan raddio gyda dosbarth cyntaf yn y Gymraeg. Bu'n dysgu'r Gymraeg yn Ysgol Ramadeg Penfro am 15 mlynedd. Tystia sawl un iddo ysbrydoli'i ddisgyblion, mewn ardal Seisnig iawn, i ddarganfod eu hunaniaeth Gymreig fel pont i'r byd ehangach. Wedi hynny bu'n ddarlithydd yng Ngholeg Addysg Caerllion.

Gadawodd y rhyfel argraff ddofn ar Islwyn ac fe ymrôdd i hyrwyddo gwell dealltwriaeth ryngwladol. Gweithiodd gydag Ymddiriedolaeth Pentref Plant Pestalozzi ac yn ystod y pum mlynedd wedi'r rhyfel fe drefnodd fod dros 250 o ffoaduriaid gwersylloedd dadleoli Ewrop yn aros gyda theuluoedd Penfro am ddeg wythnos.

Rhwng 1954 a 1975, gyda'r Rhyfel Oer yn ei anterth, fe sefydlodd Gynhadledd Ryngwladol Penfro ag iddi'r thema *Above All Nations – Humanity*. Deuai dros 80 myfyriwr y flwyddyn o Ewrop ac fe ddenodd Islwyn siaradwyr nodedig megis Shirley Williams a'r Athro Joseph Rotblat. Disgrifiwyd Islwyn gan un a fynychodd sawl Cynhadledd â'r geiriau canlynol: 'Islwyn was a light that shone across the whole continent – even to Yugoslavia.'

Yn 1967 derbyniodd Islwyn yr MBE ac yn y blynyddoedd diweddar gweithiodd fel cyfieithydd a châi bleser arbennig yn cyfieithu storïau i'r Gymraeg ar gyfer ei wyrion. Cydymdeimlwn yn fawr â'i ferch annwyl Mair, Emyr Afan ei fab-yng-nghyfraith, a'i wyrion gwerthfawr Alaw, Naomi, Osian a Gwion.

# Merched y Wawr Cangen Caerdydd

Mynd i weithio fel parafeddyg wnaeth Sarah Vivian o Gaerfyrddin ar ôl graddio yn Adran y Gyfraith, Prifysgol Aberystwyth. Daeth i gyfarfod y gangen ar 8 Hydref i sôn am ei gwaith yn arwain tîm o bump a gafodd hyfforddiant i ymateb yn y man a'r lle i wahanol argyfyngau, boed y rheiny ar draffordd, mewn afon, dan y ddaear, ar fynydd, neu dan amgylchiadau lle ceir cemegion peryglus. Sefydlwyd y timau ymateb hyn yng ngwledydd Prydain yn dilyn yr adroddiad a gafwyd wedi cyflafan Sgwâr Tavistock, Llundain ar 7 Gorffennaf 2005.



*Sarah Vivian, parafeddyg*

Ym Mrynmenyn, Pen-y-bont ar Ogwr, mae canolfan tîm Cymru a sefydlwyd fis Gorffennaf 2012. Mae'r tîm eisoes wedi ymateb i argyfwng pwll glo'r Gleision, llifogydd ardal Aberystwyth, y chwilio a fu ym Machynlleth, a hefyd i hunanladdiadau cemegol.

O gwmpas Sarah wrth iddi siarad roedd enghreifftiau o'r offer sy'n cael eu defnyddio gan y tîm wrth fynd i fannau peryglus i gyrraedd cleifion: esgidiau trymion i gerdded mewn afonydd, siwt a mwgwd i wrthsefyll cemegion, sachau mawr yn cynnwys angenrheidiau a gwely i osod y claf ynddo i'w gario. I wneud gwaith fel hwn mae angen bod yn iach, heini a dewr. Bu Sarah ymysg yr 19,000 a redodd hanner marathon Caerdydd ar 6 Hydref. Mae hefyd yn chwarae rygbi-cyffwrdd dros Gymru.

Hwn oedd ail gyfarfod y tymor. Fis Medi, Rhiannon Gregory fu gyda ni, yn sôn am y cefndir i'w nofel, *Aderyn Brith*, sydd wedi cael derbyniad gwresog. Mae cyswllt prif gymeriad y nofel, Maï ar Manac'h â gweithfeydd y Mond, yn y De yma, o ddiddordeb mawr i sawl un o'r ardaloedd hynny.

Llongyfarchiadau a phen-blwydd pedwar ugain hapus i Kathleen Wood, Cyncoed, un o aelodau'r gangen.

Ar 12 Tachwedd bydd Beti George yn ymweld â'r gangen ac yn trafod dementia.

# Clwb Rygbi CWINS, Caerdydd, yn codi £2,275 ar gyfer Cymorth Canser Macmillan!

Mae'r llun yn dangos Richard Pexton, Llywydd y CWINS, a fu'n gyfrifol am drefnu'r digwyddiad, yn cyflwyno siec am y swm sylweddol o £2,275 i Rebecca Parke, Rheolwraig Codi Arian Cymorth Canser Macmillan. Hefyd yn y llun mae Kate Panicola o 'Kate's Kitchen' a gyflenwodd y coffi yn rhad ac am ddim ar gyfer y bore coffi llwyddiannus dros ben ar 27 Medi, ynghyd â Neil O'Hara, Ysgrifennydd a Thrysorydd y CWINS. Cyfrannwyd nifer o gacennau gan 'Memory Lane Cakes' hefyd.



# Newyddion...

**Nofel gyntaf gan ferch o'r Barri**

Cynhaliwyd noson lawnsio'r nofel *Dal i Fynd* gan Sioned Wiliam, gynt o'r Barri, yng Nghanolfan Chapter yn Nhreganna ar nos Sadwrn 28 Medi pan holwyd yr awdures gan Siân Lloyd, cyflwynwraig y tywydd. Mae Sioned yn gynhyrchydd teledu yn Llundain, yn fam i Macsen ac yn ferch i'r nofelydd a'r dramodydd Urien Wiliam. Astudiodd Ddrama yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, cyn mynd ymlaen i Goleg Iesu, Prifysgol Rhydychen. Ar hyn o bryd mae hi'n cynhyrchu cyfres gomedi deuluol o'r enw *Yonderland* i Deledu Sky.

**Awduron gynt o Gaerdydd**

Yn ddiweddar lawnsiwyd llyfr diweddaraf Siôn Jobbins, Aberystwyth, ond gynt o'r Eglwys Newydd, *The Phenomenon of Welshness*. Casgliad o erthyglau yw'r gyfrol hon ar wahanol agweddau ar Gymreictod. Yna cafwyd *Asterix a Gwŷr y Gogledd*, sef antur diweddaraf cyfres Asterix gan y cyfieithydd Alun Ceri Jones, hefyd gynt o'r Eglwys Newydd. Dechreuodd Alun gyfieithu straeon Asterix pan oedd yn ddisgybl un ar bymtheg oed yn Ysgol Gyfun Rhydfelen yn saithdegau'r ganrif ddiwethaf.

**Gŵyl Sŵn 2013**

Cynhaliwyd y seithfed Ŵyl dros y cyfnod 17-20 Hydref mewn gwahanol leoliadau ar draws y ddinas. Un o drefnwyr yr Ŵyl yw'r DJ Huw Stephens, gynt o'r Eglwys Newydd. Y llynedd bu dros 150 o fandiau yn diddanu ac yn chwarae o flaen bron 5,000 o bobl.

**Cynhadledd Cerddoriaeth Byd WOMEX 13 yn y Bae**

Cynhaliwyd y gynhaledd ryngwladol bwysig hon yng Nghanolfan y Mileniwm a Sgwâr Roald Dahl dros y cyfnod 23-27 Hydref. Roedd y gynhadledd yn gyfle i hybu a gwerthu'r diwydiant cerddoriaeth werin yn y byd a dewiswyd hanner cant o gerddorion traddodiadol gorau'r byd i ymddangos yn y gynhadledd. Cynhaliwyd y gyngerdd agoriadol, *Gwlad y Gân*, yng Nghanolfan y Mileniwm ar nos Fercher, 23 Hydref, gyda rhai o artistiaid gorau Cymru'n perfformio.

**Pobl Caerdydd – *Y Dinesydd* Digidol**

Ers ei lawnsio yn Tafwyl mae *Pobl Caerdydd* wedi tyfu ar draws tri llwyfan – y wefan, tudalen *Facebook* a *Twitter*. Nawr mae angen cynnal y momentwm wrth i'r gaeaf nesáu. Gallwch gyfrannu'n uniongyrchol trwy gofrestru gyda: poblcaerdydd.com.storini a danfon eich erthygl gyda llun ar gyfer y wefan.

## *Llongyfarchiadau i...*

- Meleri Wyn a Mathew Flint, yr Eglwys Newydd, ar enedigaeth efeilliaid – Elis Gwern ac Efan Hedd.
- Ioan Gruffudd a'i wraig, Alice Evans, ar enedigaeth Elsie Marigold, chwaer fach i Ella Betsi, ar 13 Medi yn Los Angeles.

## *Cydymdeimlo â*

- theulu'r diweddar Jane Clee o Ystum Taf a fu farw yn Ysbyty'r Brifysgol ar 6 Hydref. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 17 Hydref.
- theulu'r diweddar Rhian-Nest Davies o'r Barri a fu farw yn frawychus o sydyn yn ei chartref ar 30 Medi. Bu'r angladd yng nghapel y Tabernacl, Y Barri, ar 18 Hydref, ac wedi hynny yn Amlosgfa'r Barri.
- theulu'r diweddar Gwyneth Kenrick (Williams gynt), Llanrwst, a fu farw ym mis Hydref. Roedd Gwyneth yn hanu o bentre Bryn Pydew ger Cyffordd Llandudno ond bu'n byw yng Nghaerdydd ac yn gweithio yng Nghanolfan y BBC yn Llandaf. Roedd y teulu, sef Mr a Mrs J. O. Williams a Gwyneth a'i chwaer, Mair, yn aelodau yn Eglwys y Crwys ac yn byw yn Llwynfedw.

# *Corina Pavlova a'r Llew sy'n Rhuo*

**SIOE NADOLIG NEWYDD SHERMAN CYMRU**

***Croeso i'r siop anifeiliaid anwes hud lle mae'r anifail anwes yn eich dewis chi!***

Y Nadolig hwn, bydd Sherman Cymru yn cyflwyno sioe newydd i blant gan yr awdur plant, Elen Caldecott. Antur na ddylid ei cholli i'r rhai dan 7 oed a'u teuluoedd yw *Corina Pavlova a'r Llew sy'n Rhuo*.

Yn dilyn llwyddiant ysgubol sioe *Teigr yr Eira* y llynedd, *Corina Pavlova a'r Llew sy'n Rhuo* yw'r sioe Nadolig berffaith i fechgyn a merched 3-6 oed sy'n hoffi gwrando ar storïau, chwarae gydag anifeiliaid ac a fyddai wrth eu bodd yn mynd ar antur gyffrous...

Merch fach sydd bron â thorri ei bol eisiau anifail anwes fel anrheg Nadolig yw Corina Pavlova ond yn lle hynny mae'n cael brawd bach nad yw'n hoff iawn ohono gan ei fod yn crio drwy'r amser.

Felly pan fydd Mr McAlistair, sy'n berchen Siop Anifeiliaid Anwes Mr McAlistair, yn addo rhoi'r anifail anwes perffaith i Corina Pavlova ar gyfer y Nadolig, mae Corina'n llawn cyffro. Ond nid Siop Anifeiliaid Anwes gyffredin yw hon. Yn Siop Anifeiliaid Anwes Mr McAlistair, yr anifail anwes sy'n eich dewis chi! Mae'n cwrdd â mwnci a neidr, ond nid oes yr un ohonynt eisiau byw gyda Corina; ond yna mae Corina'n cwrdd â llew.

Ymunwch â Corina am antur gyffrous yn llawn anifeiliaid o bob lliw a llun mewn sioe Nadoligaidd i'r teulu cyfan, yn llawn canu, dawnsio a rhuo! Ysgrifennwyd *Corina Pavlova a'r Llew sy'n Rhuo* gan yr awdures plant, Elen Caldecott, a ysgrifennodd *The Great Ice Cream Heist*, *Operation Eiffel Tower* a *How Kirsty Jenkins Stole the Elephant*. Hon fydd drama gyntaf Elen i blant. Ac yn dilyn llwyddiant y sioe *Teigr yr Eira* y llynedd, bydd Cyfarwyddwr Cyswllt Sherman Cymru, Mared Swain yn cyfarwyddo *Corina Pavlova a'r Llew sy'n Rhuo*.

**Dyddiadau perfformiadau yn Theatr y Sherman, Caerdydd;** 8 a 9 Tachwedd; 9 Rhagfyr - 4 Ionawr 029 2064 6900

# Colofn G.R.

Adeg yma y llynedd on i'n dal ar fy ngwyliau yn y Wladfa ac mae hi'n anodd credu bod blwyddyn wedi mynd heibio ers hynny! Ond fel y dywed yr hen air, 'Hêd amser; na, erys amser, dyn â'!

Yn fy ngholofn nôl ym mis Hydref on i'n sôn am wahanol ddathliadau ac yn ddiweddar bues i mewn cinio yn Radur yn dathlu hanner canmlwyddiant ers i'r diweddar Trefor a Gwyneth Morgan, Ystradgynlais, sefydlu Cronfa Glyndŵr i roi cymorth a hwb i addysg Gymraeg. Mae tipyn o ddŵr wedi mynd o dan y bont ers y dyddiau hynny ond mae'r Gronfa yn dal i gynnig cymorth a gobaith i bawb sy'n ymhel ag addysg Gymraeg. Y siaradwr gwadd yn y cinio odd yr Athro Richard Wyn Jones, Prifysgol Caerdydd, a chafwyd anerchiad treiddgar ganddo am sefyllfa'r iaith bellach a'r angen i ni ddal i bwyso ac ymgyrchu i geisio dyfodol mwy sicr iddi. [Gweler 'Galw am weithredu gan y to hŷn' yn y rhifyn hwn o'r *Dinesydd*.]

Wedyn ar 14 Hydref cafwyd cyfle i gofio am y ddamwain erchyll ym mhwll glo yr Universal, Senghennydd, gan mlynedd i'r diwrnod hwnnw. Dadorchuddiwyd cofeb yn y pentre i gofio am yr holl löwyr ledled Cymru a gollodd eu bywydau yn y pyllau glo; cofiwyd yn arbennig am y cannoedd o löwyr a laddwyd yn Senghennydd. Bu'n ddiwrnod emosiynol iawn i lawer o ddisgynyddion y glöwyr a laddwyd ac i bawb a ddilynodd y cofio ar y radio a'r teledu.

Wrth ddilyn y digwyddiadau cofiais am un glöwr yn arbennig odd yn byw ym mhentre Abertridwr ger Senghennydd, sef Jack Roberts, neu 'Jack Russia' fel y'i gelwid yn Abertridwr, oherwydd ei gomiwynyddiaeth a'r ffaith iddo fod yn ymladd yn y Rhyfel Cartre yn Sbaen. Odd o'n gweithio ym Mhwll Glo'r Windsor yn Abertridwr adeg y danchwa erchyll yn yr Universal.

Ces i'r fraint o gyfarfod Jack Roberts yn ei henaint, a hynny o flaen Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth adeg eu cymanfa ganu flynyddol. Odd hi'n arferiad y pryd hynny i lond bws o bobl Abertridwr ddod i'r gymanfa ac odd Jack yn eu plith. Un o Benrhyndeudraeth odd Jac a buodd o yn yr ysgol yno yr un pryd â'm tad. On i a'm rhieni yn sefyll o flaen y capel pan welodd Jack fy nhad a dod draw i ysgwyd llaw. On nhw heb weld ei gilydd ers eu dyddiau yn ysgol y pentre. Odd fy mam yn sefyll wrth ochr fy nhad a dyma Jack yn plesio fy mam yn arw pan ofynnodd Jack i'm tad os mai ei ferch odd yn sefyll wrth ei ochr! Mae ŵyr Jack, Richard Felstead, wedi sgrifennu hanes ei daid mewn llyfr o'r enw *No Other Way* a ches i fodd i fyw yn darllen hanes y gŵr rhyfeddol hwn.

Ond, nôl at y dathlu rwan sef dathlu'r ffaith y sefydlwyd y cwrs Wlpan cyntaf yng Nghymru yng Nghanolfan yr Urdd, Heol Conwy yn Nhreganna, ddeugain mlynedd yn ôl ar 24 Medi 1973. Daeth dwsin o bobl ar y cwrs arbrofol hwn gan ddysgu Cymraeg am bum noson yr wythnos am ddau fis yng nghwmni tîm o athrawon ail iaith brwdfrydig ac egnïol. Ar ddiwedd y cwrs penderfynwyd bod yr ymdrech wedi bod yn llwyddiant a thros y blynyddoedd wedyn sefydlwyd llawer o Wlpanau ledled y wlad.

Cynhaliwyd cyrsiau Wlpan yng Nghanolfan yr Urdd am flynyddoedd ac un o'r myfyrwyr odd diweddar Esgob Bangor, sef Tony Crockett, oedd yn gurad ar y pryd ac yn byw yn Rhiwbeina. Achosodd lawer o chwerthin un noson pan ofynnodd i'r tiwtor 'oes bywyd ar ôl Wlpan?'! Mae un o'i ferched, Kate, yn gweithio i Radio Cymru yn Abertawe.

Ces i reswm i fynd i Heol Conwy yn ddiweddar i ymweld â thŷ newydd fy nith yn y Crescent a rhyfedd odd edrych draw a gweld bloc o fflatiau lle arferai Canolfan yr Urdd sefyll! Bellach, agorwyd cartref newydd i'r Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm yn y Bae ond erys atgofion lu am yr holl weithgarwch a fu yn yr hen ganolfan flynyddoedd yn ôl.

# Ôl-Lwybrau

Bachgen bach o'r 'Brij' – Pontarfynach, Devil's Bridge, yng ngogledd yr hen sir Aberteifi – ydw i, ac mi gyrhaeddais y De ddechrau'r chwedegau, gan gyrraedd y South Bargoed Junior Boys School, a symud i lawr i'r brifddinas wedyn fel tipyn o athro Cymraeg, i'r academi enwog honno yn Nhrelái – Herbert Thompson Junior School: dod i ganol criw o athrawon Cymraeg ymroddgar, a'r rhan fwyaf ohonynt yn llwyddiannus yn y gwaith ... ssh nawr! Ond fy uchafbwynt i yno 'rwyn credu oedd cael dysgu tad Ryan Giggs – Danny Wilson, a ddaeth yn ddiweddarach yn chwaraewr rygbi nid anenwog – peidiwch â gofyn faint o Gymraeg oedd gydag e! Cof arall sydd gen' i yw fod yna fwrlwm o gerddoriaeth yn yr ysgol gyda Bernard Cook yn brifathro a Peter Griffin yn ddirprwy. A'r wythnos ddiwethaf mi ddes o hyd i raglen y cyngherddau blynyddol: falle bod rhai ohonoch chi'n cofio'r *Cardiff Schools Music Festival* a gynhaliwyd o nos Fawrth i nos Wener yn y pafiliwn yng Ngerddi Soffia. Mae gen i record LP o gyngerdd ardal y De a'r Gorllewin yn 1965 – a rhaid dweud 'mod i'n meddwl ei bod yn swnio'n dda iawn ... ssh nawr! Yn yr un pecyn roedd yna raglen o gyngerdd Côr Aelwyd yr Urdd – nos Wener, 21 Mai 1965, yn Neuadd Reardon Smith; arweinydd: Alun Guy; cyflwynydd: John Bevan, a hefyd mi roedd yna ryw Wyndham Richards a enillodd yr adroddiad dros 25ain oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y ddinas yn adrodd 'Sgidiau Dani'r Crydd' o *Hen Wynebau* gan D. J. Williams. Mae gen i gof byw o'r hoffus Norah Isaac yn dod ata' i pan ddes i oddi ar y llwyfan gan ddweud, 'Dewch chi, 'machgen i, i gwrdd ag awdur y geiriau 'rych chi newydd eu llefaru.' Braint fu cael cwrdd â'r gŵr hynaws o Rydcymerau. A wyddech chi, mi ges i docyn llyfrau gwerth 7/6 am ennill; a'r un flwyddyn yn 'steddfod fawr gynta Pantyfedwen ym Mhontrhydfendigaid mi enillais y wobr gyntaf o £70, os cofia i yn iawn – felly 'roedd hi'n werth bod yn ddisgybl cyntaf i'r athro llefaru disglair, Alun Jones – fe roddodd fi neu fi roddodd e ar ben ffordd tybed? ... ssh nawr!

Mi fyddwn yn ymweld â'r capel a'r dafarn yn eu tro.

*Parhad drosodd*

Yn y Crwys y cwrddais i â'r triawd enwog o Fwlch-y-llan: y Parchedig Dan Lodwick Jones – gweinidog hawddgar; Lloyd Evans – prifathro yn y Barri, arweinydd diledryw; a John Evans – trefnydd iaith gweithgar ym Morgannwg Ganol – 'Yr Albert' i'w ffrindiau agosaf. Ac mewn parti ar ôl bod yn y *New Ely* y cwrddais i â'm gwraig addfwyn, fyrlymus, Gwenan – Cymraes o Lerpwl ond Sgowsar ag acen Cardi bellach, mam ein dau fab, Aled ac Owen, a gwarchodwraig y teulu.

Bydd yna lwybyr bach yn y cof hefyd yn arwain tua'r gornel honno gyda'r criw dethol ym Mharc Ninian yn gwylio'r *City*.

Mae'r lle mwya' yn y cof yn mynd yn bendifaddau i rif dau Conway Road, ond byddai angen cyfrolau i adrodd y chwedlau am y lle hwnnw, ac nid dyma'r lle i ddechrau. Digon yw enwi'r preswylwyr yn unig – John Meurig Edwards (Biggs), John Evans, Tregaron (Ifans Bach), a finne ar y llawr isaf; Rhydderch Jones (Rhydd), Alun Davies (Brechfa) a Harold Jenkins (Shinc) ar y llawr canol; Alun (Jones), Dai Evans (Dai Ian), a Dai Davies (Dai Trywel) ar y llawr uchaf, yn eu tro, ac unrhyw un arall a ddigwyddai fod yno ar y pryd ... ssh nawr!

Ymunais â'r BBC yn '67 fel *Studio Manager*, y teitl yn grandiach na'r swydd yn sicr, ond ces fwynhad ymysg y criw brith – caiff fy nghyfaill Cedric Jones eu cynrychioli i gyd gan y byddwn yn meddwl amdanynt weithiau, ac yntau â'r cof byrlymus storiol yn falm i'r ysbryd. Symud i'r Adran Gyhoeddi wedyn ac mae enwi'r rhai fûm i yn ddigon ffodus o gael cydweithio â nhw yn ddigon yma: David Bevan, Ronnie Williams, Robin Jones, Ifan Wyn Williams, Iwan Thomas, Meurig Williams, Nest Owen, Rhiannon John, John Evans, Geraint Jones, Gareth Glyn, Frank Lincoln, Daloni Roberts, Richard Rees, Nia Wyn, a'r rhyddgyfranwyr, Arthur Morris Jones, Noel Williams, Dillwyn Owen, a Gwyn Parry, heb anghofio fy hyfforddwraig a'r un fu'n gefn i mi, Menna Gwyn. Caewch eich llygaid am funud a gwrandewch ar y lleisiau eto … glywsoch chi nhw? Do, do – wel, wyddwn i ddim eich bod chi mor hen! Beth, naddo? Rhy ifanc ... wel mi gawsoch golled.

Mae yna lwybyr amlwg yn y cof yn arwain yn union, wrth reswm, at Radio Cymru ac at y golygydd cyntaf, yr hirben, doeth a deallus Meirion Edwards – un a wyddai wrth reddf beth oedd anghenion gwrando ei gynulleidfa; ac i'w olynydd, y mentrus L.T. Jones, am fentro gofyn i mi sylwebu ar seremonïau'r Orsedd yn yr Eisteddfod Genedlaethol a nodi i'r llwybr hwnnw fy arwain at gael cydweithio â dau o fy arwyr pennaf ym myd darlledu, Alun Williams ac R. Alun Evans. Yn eu cwmni dysgais gymaint am sylwebu a darlledu yn gyffredinol, a theimlwn yn dipyn o foi yn cerdded y maes gyda'r ddau yna – ymhell cyn dyddiau'r selebs modern – dyledus wyf … ssh nawr! Bydd rhaid aros am funud i gofio am 'Cloddio'r Aur' hefyd yng nghwmni'r archifydd dalentog, Iris Cobbe, ac nid pawb all frolio iddyn' nhw fod yn *vaults* dyfnion y BBC yng nghwmni Iris!

Bellach, a ninne' bron ar ben y llwybyr, gobeithio y bydd yr atgofion yn plesio G.R., ond yn bwysicach, y bydd yna sylwadau ffafriol gan yr Albert, Len, a John Walter yn y seiat nesa. Mae'n bryd i'r hen begor yma i fynd n'ôl i gysgu bellach … ssh nawr!

**Wyndham Richards**

# COLOFNYDD Y MIS

## Gillian Green

Roedd Yehudi Menuhin yn athrylith ac ymhell o flaen ei amser pan sefydlodd *Live Music Now* (LMN) gyda'i ffrind Ian Stoutzker yn 1977. Roedd yn ymwybodol iawn bod nifer o bobl o fewn ein cymdeithas yn methu mynd i'r neuadd gyngerdd i wrando ar gerddoriaeth fyw, a bod angen gwaith ar gerddorion ifanc talentog oedd ar fin dechrau ar eu gyrfaoedd, felly dyma gyplysu'r ddau angen a ffurfio mudiad *Live Music Now*. Rwy'n deall bod nifer wedi dweud wrtho ar y dechrau na fyddai'r syniad byth yn gweithio ond wedi 36 o flynyddoedd mae'r gwaith yn parhau ac yn mynd o nerth i nerth yn y Deyrnas Unedig!

Bûm yn ffodus iawn i gael bod yn rhan o sefydlu cangen newydd sbon yma yn 1990 ac ers hynny trefnwyd dros 5,000 o berfformiadau LMN ledled Cymru, gan fynd â cherddoriaeth fyw i mewn i gartrefi gofal, ysbytai, ysgolion ac ysgolion i blant ag anghenion arbennig.

LIVE MUSIC NOW

YSBRYDOLI CERDDORION
TRAWSNEWID BYWYDAU

Mae'r rhestr o gerddorion o Gymru sydd wedi bod ar y cynllun yn faith ac yn cynnwys Llŷr Williams, Paul Carey Jones, Tim Rhys Evans, Jeff Howard a Manon Morris. Mae dros 30 o gerddorion o Gymru ar LMN ar hyn o bryd ac yn eu plith mae Hannah Stone, Jamie Smith, Rhiannon Pritchard, Jennifer Walker ac Elfair Grug Dyer. Bob blwyddyn bydd rhai newydd yn ymuno drwy glyweliad, felly gerddorion ifanc, edrychwch ar ein gwefan i weld pa bryd mae dyddiad y clyweliad nesaf! Rydym yn gofyn am ddoniau cerddorol ardderchog a'r gallu i gyfathrebu ag ystod eang o gynulleidfaoedd. Ydy, mae'n her, ond dyma'r hyn ddywedodd un o'n cyn-gerddorion, y gitarydd Chris Stell:

*'Ydy, mae LMN yn rhoi cychwyn ar eich gyrfa ond hefyd yn cyflwyno ffordd o feddwl a'r modd i chi fynegi eich hun fydd yn aros gyda chi trwy gydol eich bywyd cerddorol.'*

A dyma ddyddiad i bob un ohonoch: Nos Sadwrn, 15 Chwefror 2014 – Cyngerdd Mawreddog LMN yn Neuadd Dora Stoutzker, Coleg Cerdd a Drama Brenhinol Cymru. Cewch glywed Llŷr Williams, Only Boys Aloud, Reisha Adams (soprano), Samantha Price (mezzo soprano), Rhiannon Pritchard (piano), Jamie Smith (accordion) a Phedwarawd Mavron. Dewch yn llu ar gyfer noson i'w chofio!

# COLOFN NEWYDD!

# MERCH Y DDINAS



Lowri Haf Cooke ydw i, merch o Benylan – sgwenwraig, darlledwraig, adolygydd theatr, ffilm, llên a chelf, a beirniad bwytai, yn dilyn degawd gyda BBC Cymru. Ar droad y flwyddyn cyhoeddwyd fy nghyfrol gyntaf, sef teithlyfr i'r brifddinas, ***Canllaw Bach Caerdydd*** (Gwasg Gomer).


Bu'r ymateb yn arbennig, ac mae'r diddordeb – a'r gwerthiant – yn parhau, wrth i mi dderbyn croeso cynnes i siarad am y llyfr â sefydliadau niferus. Yn ddiweddar ces i groeso twymgalon a gwrandawiad gwych gan gangen Merched y Wawr Bro Radur ac aelodau Clwb Cinio Merched Pen-y-bont ar Ogwr, a dw i'n edrych ymlaen at annerch Clwb Cinio Cymraeg Caerdydd yng ngwesty Churchills, Llandaf ar 9 Rhagfyr.

Fy mwriad wrth lunio'r gyfrol hon oedd creu cynnwrf ymysg y darllenwyr, a gwerthu'r ddinas nid yn unig i ymwelwyr ond i ddinasyddion dŵad a phreswylwyr bore oes. Ry' ni i gyd yn euog o lynnu at ein corneli bychain ni o Gaerdydd, ac ro'n i'n awyddus iawn i ymestyn gorwelion dinesig pawb.

Wrth rannu hanes y maestrefi, datgelu corneli cyfrin Caerdydd, a chyflwyno'r cyfan ar ffurf cyfrol ddeniadol, fy ngobaith mawr oedd y gallai ***Canllaw Bach Caerdydd*** gydorwedd yn naturiol â theithlyfrau eraill o safon ryngwladol.

Ceir yn y gyfrol benodau amrywiol ar ddiwylliant, hamddena ac aros dros nos. Ond mae'n wir dweud mai'r adran fwyaf gordew yw'r bolgi o bennod ar fwyd a diod, gan fod gloddesta'n gyhoeddus – prun ai dros baned a chacen a chlonc, ynteu clamp o bryd bwyd – bellach yn rhan annatod o'n diwylliant cyfoes.

Yn naturiol, fel pob prifddinas ryngwladol, mae 'na fynd a dod fel tro'r trai yng Nghaerdydd, ac mae'n wir




dweud bod ambell siop neu fwyty wedi cau ers cyhoeddi'r gyfrol. Fy ateb naturiol i hynny oedd cyhoeddi diweddariad ar-lein, ar ffurf cofnod misol ar fy mlog Cymraeg, sef ***Merch y Ddinas*** (mynnwch gip ar **www.lowrihafcooke.wordpress.com**).

Ond o hyn ymlaen, mi fydda i hefyd yn sgrifennu colofn newydd yn arbennig i'r *Dinesydd*, a fydd yn adolygu bwytai ledled y brifddinas, ac fel nifer ohonoch chi, mae gen i ddiddordeb arbennig mewn busnesau sydd â chysylltiad Cymraeg. Dw i'n edrych ymlaen i gael rhannu fy marn yn onest ac yn ddi-flewyn ar dafod; gobeithio y cewch chi flas ar y golofn newydd, ac y cewch eich ysbrydoli.

*Canllaw Bach Caerdydd*, Lowri Haf Cooke; Gwasg Gomer, £9.99

**Drwg gan *Y Dinesydd* glywed am ddamwain car Lowri. Dymunir adferiad llwyr a buan iddi.**

# MENTER IAITH BRO MORGANNWG

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddiddymu Menter y Fro yn Ionawr 2013, sicrhaodd Menter Caerdydd dendr i ddatblygu ac arwain prosiect i godi proffil a defnydd yr iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg.

**Fforwm Iaith Bro Morgannwg**

Rydym wedi sefydlu Fforwm Iaith Bro Morgannwg i ddod â mudiadau a chymdeithasau sy'n gweithredu drwy'r Gymraeg ym Mro Morgannwg at ei gilydd, i adrodd yn ôl am eu meysydd gwaith, rhannu syniadau am arfer da ac ystyried cyfleoedd cydweithio. Mae gennym gynrychiolaeth o Urdd Gobaith Cymru, Canolfan Cymraeg i Oedolion, y sector addysg, Merched y Wawr, Tŷ Cadog a Choleg Caerdydd a'r Fro.

**Pwyllgor Rheoli**

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Pwyllgor Rheoli ar 8 Hydref. Cafwyd ymateb da iawn gan drigolion lleol, a chytunodd y deuddeg aelod a oedd yn bresennol i fod yn gyfarwyddwyr ar y cwmni newydd. Penodwyd Gwenllian Grigg yn Gadeirydd, Gwenno Huws yn Is-Gadeirydd, Eiry Palfrey yn Ysgrifennydd ac Alun Daniel yn Drysorydd.

***Parhad ar dudalen 9***

# Ysgol Bro Edern

**Taith yr Adran Gymraeg i Wersyll yr Urdd Glan-llyn**

Ym mis Hydref aeth criw o Flwyddyn 8 i Wersyll yr Urdd Glan-llyn. Roedd pob un ohonom yn andros o gyffrous, yn enwedig gan mai dyma ein tro cyntaf i fynd draw yno.

Fe wnaethon ni lawer o bethau, er enghraifft adeiladu rafft, gwylio ffilm, cwrs rhaffau uchel, canwio, *sit-ons*, cyfeiriannu, adeiladu tîm, bowlio deg ac ati. Cawsom hefyd y cyfle i ymweld â Llyn Celyn i ddysgu mwy am hanes y boddi ar gyfer ein gwersi Cymraeg ac i ddeall teimladau y bobl oedd yn byw yno.



*Ar antur yng Nglan-llyn!*

Fy hoff beth am y daith oedd y bwyd. Fy hoff weithgareddau oedd y *sit-ons*, canwio a'r rhaffau uchel. Roeddwn yn ofnus ar y rhaffau uchel ond roeddwn i dal wedi llwyddo i gwblhau'r cwrs. Roedd o'n ofnus neidio oddi ar y platfform gyda dim rhaff i'ch dal. Roedd darnau ohono fel trapîs mewn syrcas! Roedd y canwio a'r *sit-ons* hefyd yn wych oherwydd roedd pawb yn gwlychu - dyna hoff beth pawb wrth gwrs! Roedd yn wych neidio lan a lawr, troi o gwmpas a cherdded dros y darn pren i gwch gwahanol. Wrth geisio newid llefydd efo pobl eraill roeddech chi angen cadw eich cydbwysedd a cheisio peidio â chwympo i fewn i'r llyn. Roedd pawb yn chwerthin ac yn gwenu, pawb wedi cael hwyl. Mae'n le arbennig i fynd, yn enwedig efo'r ysgol, gan fod yr athrawon yn dod i ddysgu mwy amdanon ni a'n hoff ddiddordebau. Roedd y daith hefyd yn helpu ni i edrych ar ôl ein hunain heb Mam a Dad yno i godi pethau lan ar ein holau!

**Seren Phillips, Bl 8**

**Maniffesto Pobl Ifanc**

Ym mis Hydref cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau cyffrous yn y ddinas fel rhan o ddiwrnod *Take Over Caerdydd*, prosiect arbennig a drefnwyd gan y Cyngor Prydeinig a Llenyddiaeth Cymru. Roedd ein hysgol ni yn lwcus iawn i gael gwahoddiad gan Lenyddiaeth Cymru i gymryd rhan yn y prosiect ac i gydweithio â beirdd a pherfformwyr enwog dros gyfnod o wythnos. Ar ddydd Llun, 7 Hydref, daeth y bardd a'r berfformwraig Ruth Evans, 'Rufus Mufasa', i'r ysgol i weithio gyda dosbarth o ddisgyblion brwdfrydig Blwyddyn 8. Cawsant gyfle i rapio ychydig a chyd-gyfansoddi cerdd yn sôn am hunaniaeth. Erbyn diwedd y dydd roeddent wedi llwyddo i greu maniffesto creadigol personol. Dewiswyd pedwar o'r dosbarth i fynychu'r Senedd ar yr ail ddiwrnod er mwyn paratoi at berfformio o flaen cynulleidfaoedd a gweithio'n agos gyda Beirdd Plant Cymru, Aneirin Karadog a Martin



Daws, ynghyd â'r bardd o Efrog Newydd, Michael Cirelli. Cafodd y disgyblion brofiadau arbennig a chyfle i gydweithio â disgyblion o ysgolion cyfun Plasmawr, Fitzalan a'r Eglwys Newydd. Ar y dydd Sadwrn canlynol perfformiodd holl ddisgyblion yr ysgolion hynny yn y Senedd a Chanolfan y Mileniwm. Daeth llawer o bobl i wylio'r perfformiadau a chanmolwyd ymdrechion y disgyblion gan yr holl feirdd a pherfformwyr. Profiad a hanner!

# Ysgol Glantaf

**Cwrs STEM**

Agoriad llygaid i ddisgyblion Dylunio a Thechnoleg Blynyddoedd 11 a 13 oedd gweld y car uwchsonig *Bloodhound SSC* yn eistedd ar risiau'r Senedd ym Mae Caerdydd yn ystod eu hymweliad diweddar, fel rhan o'u cwrs STEM. Cafwyd cyfle i fynd o amgylch y car a dysgu am yr ymdrech i guro record cyflymder tir y byd. Roedd y disgyblion wedi mwynhau'r cyfle i weld a phrofi defnydd mor arloesol o dechnoleg, gan sylweddoli bod gwersi STEM yn gallu arwain at gyfleoedd cyffrous yn y dyfodol.

**Sgwad Sgwennu**

Bydd Shani Evans, Millie Marcenaro, Arianwen Peterson, Caitlin Jones, Owain Carbis, Lewis Vinnicombe, Bethan Llewelyn, Ellyn Baker, Cerys Davage a Georgina Savastano o Flwyddyn 8 yn rhan o Sgwad Sgwennu ar y cyd ag Ysgol Plasmawr ac Ysgol Bro Edern. Bydd y gweithdy creadigol cyntaf dan ofal Leusa Llewelyn. Mae'r plant yn edrych ymlaen yn arw!

**Cwrs Sgriptio *Ffresh Ink* gyda Sherman Cymru**

Mae deg o ddisgyblion wedi bod yn cymryd rhan yng ngweithdy sgriptio *Ffresh Ink* yn ystod yr hanner tymor diwethaf, sef Beca Hayes, Emily Ogonovsky, Hannah Watkin, Sophie Azzopardi, Katie Issac, Branwen Jones, Sioned Rowlands, Dafydd Manley, Iwan Jones a Llion Carbis. Cawsant brofiadau gwych mewn cyfres o weithdai sgriptio yn yr ysgol ac yna cafodd y dramâu eu perfformio yn Theatr y Sherman. Roedd canmol mawr i'r gwaith ac elwodd y disgyblion yn fawr o'r profiad.

**Gweithdy Theatr Ieuenctid yr Urdd**

Braf oedd croesawu Theatr Arad Goch i'r Adran Ddrama

ar ddydd Iau, 17 Hydref, i gynnal gweithdy ar ran Theatr Ieuenctid yr Urdd. Cafodd 30 o ddisgyblion Blynyddoedd 11, 12 a 13 gyfle i fynychu'r gweithdai.

**Taith Gyfnewid yr Almaen**
Dyma'r ddeunawfed flwyddyn i ddisgyblion o Flynyddoedd 10 i 13 Ysgol Glantaf deithio i Bergneustadt, ger Cologne.

**Buddugoliaeth!**
Llongyfarchiadau i dîm rygbi 7 bob ochr Blwyddyn 9 ar ennill cystadleuaeth y sir!



*Tîm rygbi buddugol 7 bob ochr Blwyddyn 9!*

# GALW AM WEITHREDU GAN Y TO HŶN

Ar nos Sadwrn, 12 Hydref, daeth cynulleidfa gref ynghyd yng Nghlwb Golff Radur i ddathlu hanner canmlwyddiant sefydlu Cronfa Glyndŵr yr Ysgolion Cymraeg. Rhwystredigaeth ynghylch amharodrwydd yr awdurdodau addysg i ymateb i'r galw am addysg Gymraeg a barodd i Trefor a Gwyneth Morgan sefydlu'r gronfa yn 1963. Wrth gyflwyno gŵr gwadd y noson, yr Athro Richard Wyn Jones, awgrymodd Cadeirydd y Gronfa, Gerald Latter, nad oedd pethau wedi newid rhyw lawer yn hynny o beth.

Er bod elfen o wirionedd yn hynny, mynnodd yr Athro Richard Wyn Jones fod llawer iawn wedi newid, mewn gwirionedd. Erbyn hyn mae agwedd pobl tuag at y Gymraeg dipyn yn iachach, gydag 80% o bobl Cymru am weld mwy yn cael ei wneud dros yr iaith. Mae'r twf mewn addysg Gymraeg yn ffenomen ryfeddol, meddai, ond cytunodd â'r Cadeirydd fod her enfawr yn ein hwynebu o hyd, sef ymgyrch *ehangach* o blaid y Gymraeg.

Her lawn mor ddifrifol â sicrhau'r ddarpariaeth, meddai Richard Wyn Jones, yw gwarchod safon yr iaith. Gwelir tystiolaeth o hyd ac o hyd fod yr iaith yn 'breuo', a mwy a mwy o eirfa Saesneg yn llithro i mewn i'r iaith lafar. Mae'r dirywiad yn safon iaith llawer o'n pobl ifanc yn destun pryder. Un o'r heriau mwyaf yw'r newid technolegol sy'n digwydd ym myd cyfathrebu. Mae yna beth darpariaeth Gymraeg – ond Saesneg yw iaith y gemau technolegol sydd mor boblogaidd, ac mae eu dylanwad yn aruthrol.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae consensws gwleidyddol cryf, erbyn hyn, o blaid Cymru ddwyieithog – agwedd sy wedi llamu ymlaen ers pleidlais 1979 ar ddatganoli. Y newid mwyaf a ddigwyddodd yn ystod yr hanner canrif diwethaf yw twf democratiaeth Gymreig. Hanner can mlynedd yn ôl doedd gyda ni ddim Swyddfa Gymreig; heddiw mae gyda ni Gynulliad, a Llywodraeth Cymru. Ond mae yma eironi mawr! Tra bod Cymry Cymraeg wedi chwarae rhan ganolog yn yr ymgyrch i sicrhau y sefydliadau a'r hawliau hyn, y ffaith yw nad ydyn ni wedi eu defnyddio – a gellir ystyried hyn yn fethiant mawr. Er enghraifft, fe enillwyd Deddf Iaith – ond beth am y cynnwys? Yr hyn sy gennym yw deddf gymhleth ac aneffeithiol!

Yr hyn sydd ei angen nawr yw difrifoli – ystyried a chynllunio sut y gallwn ni *ddefnyddio* y sefydliadau rydyn ni wedi eu creu. Mae 'lobïo' wedi dod yn elfen bwysig mewn gwleidyddiaeth. Mae'n digwydd ym myd addysg, iechyd, cynllunio – pob math o feysydd. Ond o fewn y meysydd hyn mae angen lobïo ar ran y Gymraeg!

Yn hyn o beth bu sefydlu Dyfodol i'r Iaith yn ddiweddar yn gam pwysig ymlaen. Ond mae angen rhagor o adnoddau dynol er mwyn ymgyrchu – ac mae gan y to hŷn gyfraniad pwysig i'w wneud. 'Rhaid i ni stopio beio pobl eraill,' meddai Richard . 'Os na fynnwn ni'r gwasanaethau yn Gymraeg – a'u *defnyddio*, ein bai ni fydd e os mai diflannu wnân nhw!'

## MENTER IAITH BRO MORGANNWG: PARHAD

**Cydweithio â Chyngor Bro Morgannwg**
Rydyn ni eisoes wedi cyfarfod â Carwyn Jones, Jane Hutt ac Alun Cairns, a chynghorwyr Bro Morgannwg – gan gynnwys Christopher Elmore a Gwyn John – i ddechrau trafodaethau. Byddwn ni'n cydweithio ymhellach â nhw dros y blynyddoedd nesaf i ddatblygu'r ddarpariaeth gymdeithasol gyfrwng Cymraeg yn y Fro.

**Cysylltu**
Rydyn ni wedi dechrau cyfrif Trydar @MIBroMorgannwg – felly cofiwch ein dilyn am fanylion gweithgareddau, digwyddiadau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg! Neu os ydych chi am wybodaeth bellach cysylltwch â ni ar: ffion@menterbromorgannwg.org | 029 20689888




*Yr Athro Richard Wyn Jones a Gerald Latter, Cadeirydd Cronfa Glyndŵr, gyda Mrs Gwenda Williams, gweddw y diweddar Barchg Ifan R. Williams a oedd yn un o Lywyddion Anrhydeddus cyntaf y Gronfa.*

# Caerdydd

**_Fi a Fy Mabi_ i Famau Beichiog**
Ydych chi, neu ydych chi'n nabod rhywun sy'n feichiog? Beth am gofrestru ar gwrs newydd *Fi a Fy Mabi*. Bydd y cwrs 6 wythnos, sy'n cael ei gynnal yn Chapter, yn dechrau nos Lun, 11 Tachwedd. Bydd cyfle i gyfarfod â mamau newydd eraill a dysgu am dechnegau tylino babi, cael cyngor gan ymwelydd iechyd, deitegydd a bydwraig am bwydo o'r fron. Pris y cwrs yw £35.00, ac mae modd cofrestru trwy'r wefan. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â marirhys@mentercaerdydd.org

**Tripiau Bws i Gaerfaddon a Ffair Aeaf Llanelwedd**




**Penwythnos Teulu yn Llangrannog, Pasg 2014**
Beth am gofrestru i gadw lle ar ein penwythnos teulu poblogaidd yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog yn ystod gwyliau Pasg 2014. Dyddiadau'r penwythnos teulu flwyddyn nesaf fydd dydd Gwener, 11 Ebrill – dydd Sul, 13 Ebrill 2014. Penwythnos llawn hwyl a sbri, gyda llu o weithgareddau yn cynnwys nofio, merlota, cwrs rhaffau, gwibgartio, sgo, trip i'r traeth, twmpath, cwis a llawer mwy. Pris yn cynnwys llety *ensuite*, gweithgareddau'r gwersyll, prydau bwyd, taith i'r traeth, helfa wyau Pasg, twmpath dawns a llawer mwy! Am fanylion llawn, yn cynnwys y prisiau, ac i gofrestru ewch i wefan y Fenter – neu ebostiwch leanne@mentercaerdydd.org

**Cwis**
Cynhelir cwis nesaf y Fenter yn y *Mochyn Du*, Gerddi Soffia, nos Sul, 24 Tachwedd am 8:00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb. £1 yr un i gymryd rhan.

**Tafwyl 2014**




Rhowch y dyddiad yn eich dyddiaduron – bydd Ffair Tafwyl y flwyddyn nesaf yng Nghastell Caerdydd ar ddydd Sadwrn, 12 Gorffennaf. Cofiwch ddilyn Tafwyl ar Facebook a Twitter i glywed y newyddion diweddaraf am yr ŵyl nesaf!

# Newyddion o'r Eglwysi

## Bethel, Rhiwbeina

Bu farw Islwyn Griffiths, yn 93 oed ac yn aelod ffyddlon ym Methel, yn Ysbyty'r Brifysgol ar 6 Hydref. Bu'r angladd ar 14 Hydref a chydymdeimlwn â'r teulu yn eu colled fawr. Brodor o Ynys-hir yn y Rhondda oedd Islwyn a bu'n ddarlithydd yng Ngholeg Caerllion.

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch y capel ar 13 Hydref dan arweiniad y Parchg Dafydd Andrew Jones; daeth y gynulleidfa ag amrywiaeth o duniau bwyd, ac ati, i'w rhoi ar fwrdd y cynhaeaf ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd, a chafwyd casgliad tuag at waith Cymorth Cristnogol.

Dymunwn yn dda i'n gweinidog, y Parchg Evan Morgan, sydd wedi cael cyfnod o salwch. Gobeithiwn y byddwn yn ei groesawu'n ôl i'n plith ym mis Tachwedd.

## Eglwys y Crwys

**Cydymdeimlo**

Gyda thristwch y nodir y bu farw tri o'n haelodau hynaf yn ystod mis Hydref.

Daeth cyfnod i ben gyda marwolaeth yr aelod hynaf a blaenor am ddeugain mlynedd yn y Crwys, Mr D. Gwyn Jones, o'r Eglwys Newydd gynt, ond a oedd wedi ymgartrefu yng Nghartref Sunrise, Cyncoed ers rhai blynyddoedd. Er iddo gael ei anafu yn ddifrifol yn ystod y rhyfel, ni rwystrodd hynny ei yrfa ddisglair ym myd addysg. Bu'n Gyfarwyddwr Addysg Cynorthwyol yr hen Sir Gaernarfon cyn ei benodi yn swyddog gyda CBAC yng Nghaerdydd. Roedd hefyd yn awdur nifer o lyfrau plant, yn arbennig ei waith trwyadl gyda'r gwyddoniadur, *Chwilota*. Bu'n Ysgrifennydd y Cyhoeddiadau ac yn Ysgrifennydd Cyffredinol yr eglwys am lawer blwyddyn.

Bu'r Dr Marie Richards yn feddyg teulu yng Nghaerdydd am flynyddoedd a bu'n byw yng nghartref y teulu yn Victoria Park trwy gydol ei hoes.

Gyda chwithdod hefyd y daeth y newydd am farwolaeth Miss Nell Lloyd Jones, Rhiwbeina gynt. Bu'n aelod gweithgar iawn yn yr eglwys. Roedd yn gyn-Brifathrawes Ysgol Dr Williams, Dolgellau cyn cael ei phenodi yn Arolygwr Ei Mawrhydi.

Cydymdeimlir yn ddwys iawn â'r teuluoedd oll yn eu profedigaeth.

**Bedydd**

Nos Sul ddechrau mis Hydref bedyddiwyd Morgan Rhys, mab bach Robin a Sarah Owen. Roedd yn braf gweld y teuluoedd wedi dod ynghyd i'r achlysur hapus hwn.

**Yr Ysgol Sul**

Cynhaliodd yr Ysgol Sul eu Gwasanaeth Diolchgarwch ar y thema 'Dŵr' ac fe gafwyd casgliad ymadawol tuag at elusen *Wateraid*. Yn ystod y gwasanaeth bedyddiwyd dwy chwaer, sef Saran a Martha Williams, merched Tomos a Kate Williams. Mae'r ddwy yn aelodau ffyddlon o'r Ysgol Sul. Gan fod y Sul Diolchgarwch yn ddiwrnod arbennig i'r Gweinidog, y Parchg Glyn Tudwal Jones, fe ganodd y plant 'Pen-blwydd hapus' a chyflwyno cacen ben-blwydd hyfryd iddo. Cafodd yr holl aelodau flasu darn ohoni gyda phaned ar ôl yr oedfa.

**Y Cymdeithasau**

Ifan a Margaret Roberts, Pentyrch, oedd y gwesteion yn y Gorlan a chafwyd sgwrs hynod o ddiddordol ganddynt ar y testun 'Trysor Prin'.

Cwmni Sandra Rose a gafwyd ddechrau Tachwedd yn y Grŵp Merched a mwynhawyd ei chyfraniad ar y pwnc 'Tecstiliau' yn fawr iawn.

Cynhaliodd y Gymdeithas gyngerdd arbennig gan aelodau'r eglwys fel rhan o deyrnged yr eglwys i'r Parchg Glyn Tudwal Jones ar achlysur ei ymddeoliad ddiwedd Hydref. Cyflwynwyd iddo lechen gyda chywydd o waith Tudur Dylan Jones wedi ei naddu arni.

**Ymddeoliad**

Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig brynhawn Sadwrn, 26 Hydref, i dalu teyrnged i'r Parchg Glyn Tudwal Jones am ei wasanaeth clodwiw i'r eglwys dros y ddeuddeng mlynedd diwethaf. Cyflwynwyd tysteb iddo ar ran aelodau'r eglwys gan Mr Bob Roberts, yr Ysgrifennydd Cyffredinol, a chafwyd teyrngedau gan gynrychiolwyr y gwahanol gymdeithasau. Yn dilyn y gwasanaeth cafwyd lluniaeth yn y festri.

Ar y nos Sul dilynol, cynhaliwyd oedfa arbennig i ollwng y Parchg Glyn Tudwal Jones o'i wasanaeth fel Gweinidog yr eglwys. Roedd cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth a'r Cyfundeb yn bresennol. Dymunwyd ymddeoliad hir a hapus iddo ef a Delyth.




*Mr Bob Roberts yn cyflwyno tysteb ar ran aelodau Eglwys y Crwys i'r Parchg Glyn Tudwal Jones ar achlysur ei ymddeoliad. Yn y llun hefyd y mae ei briod, Delyth, a'i wyres Magdalen.*

## Eglwys Dewi Sant

**Diolchgarwch**

Y pregethwr gwâdd yn ein Gwasanaeth Diolchgarwch oedd y Parchg Eric Roberts, ficer Niwbwrch. Bu'n ficer Llandysul pan oedd Dyfrig Lloyd yn gurad yno. Cawsom bregeth rymus ganddo yn pwysleisio pwysigrwydd dod ynghyd i ddiolch ar lafar ac ar gân.

Cyflwynodd plant yr Ysgol Sul eu rhoddion ar gyfer Banc Bwyd Caerdydd ac roedden nhw'n falch iawn o dderbyn tystysgrif o ddiolch.

Addurnwyd yr eglwys yn brydferth gan ferched Cylch Dewi; roedden nhw'n ddiolchgar iawn i Len Williams am y blodau dahlia a chrysanthemum hyfryd a gyfrannodd.

Wedi'r gwasanaeth, aeth pawb i'r neuadd i fwynhau cinio ardderchog.

**Diolch...**

- i Margaret Jones a Sally Lewis am drefnu stondin ar gyfer CMS, sef Cymdeithas Genhadol yr Eglwys;
- i Ann Wyn Jones am gynnal stondin lyfrau tuag at adnewyddu'r is-doeon - gwaith sy'n digwydd ar hyn o bryd.

# Ebeneser

### Doniau cerddorol

Gyda lliwiau'r hydref yn dechrau amlygu eu hunain cawsom ddechrau gwych i gyfarfodydd y Gymdeithas ar nos Fawrth, 8 Hydref, gyda math gwahanol o liw, sef lliw dawn cerddorol ein hieuenctid gyda datganiadau offerynnol llinynol, pres a chwyth. Diolch i'r bobl ifanc am roi noson o bleser cerddodol gyda darnau amrywiol, ysgafn a heriol. Daeth y noson i ben gyda lluniaeth a sgwrs. Edrychwn ymlaen at y cyfarfod nesaf ar 12 Tachwedd pan fydd y Parchg Ddr R. Alun Evans yn traddodi darlith goffa'r Parchg Emlyn Jenkins.

### Gŵyl Bregethu Flynyddol

Y Parchg Owain Llŷr Evans, Minny Street, ddaeth atom ar 13 Hydref eleni. Diolch iddo am ei neges yn y ddwy oedfa.

### Dau ddathliad

Ar 17 Hydref dathlodd Brenda Bowen ben-blwydd arbennig wrth gyrraedd y garreg filltir arbennig honno o 90 oed. Dymuniadau gorau iddi oddi wrth ei holl ffrindiau yn Ebeneser.

Roedd Eynon a Delyth Williams yn fwy na balch o gael cyhoeddi eu bod yn daid a mam-gu eto gyda genedigaeth eu hwyres fach, Elin Wyn, ar 27 Medi. Braf oedd cael gweld Nia a Ryan Chard, gyda'r fechan yn ddiweddar. Llongyfarchiadau a phob bendith i'r teulu bach i'r dyfodol.

### Cyflwyno siec

Ar fore Sul, 20 Hydref, cyflwynwyd siec o dros £2,500 i'r Ystafell Fyw, drwy law un o'n haelodau, Rachel Jones, sy'n gweithio'n wirfoddol i'r elusen bob dydd Llun. Braint i ni fel eglwys oedd cael cefnogi'r elusen bwysig hon. Dymunwn fendith a llwyddiant iddynt yn eu gwaith gwerthfawr a phwysig. Ewch i gael hanes yr elusen ac i weld sut y gallwch chi ei chefnogi ar wefan yr Ystafell Fyw: www.livingroom-cardiff.com/cymraeg/.

# Minny Street

### Aelod newydd

Hyfrydwch oedd croesawu Hywel Ceri Jones (Penarth) yn aelod newydd atom ym mis Hydref.

### Pregethau ein gweinidog

Cofiwch fod crynodeb o bob un o bregethau ein gweinidog ar ein gwefan. Maen nhw'n werth eu darllen.

### Y Gymdeithas

Anthony Evans, yr arlunydd, oedd ein gŵr gwadd ar 8 Hydref, awdur *Canfas, Cof a Drws Coch* (Gwasg Carreg Gwalch). Bu'n olrhain hanes ei fywyd a'r dylanwadau a fu arno dros y blynyddoedd, gan eu cyflwyno mewn ffordd hynaws iawn. Noson arbennig i ddechrau'r tymor.

Aelod o Minny Street, maswr y Gleision a'r chwaraewr rygbi rhyngwladol, Rhys Patchell, oedd ein gŵr gwadd ar 22 Hydref ac fe gawsom gyfle euraidd i glywed am yr hyn sy'n digwydd y tu ôl i'r llenni ym myd chwaraewyr rygbi proffesiynol y dyddiau yma. Mae'n rhyfeddol sut mae pethau wedi newid...! Cofiwch fod croeso mawr i BAWB fynychu cyfarfodydd y Gymdeithas.

### Bethania

Dyma ein Hysgol Sul i Oedolion a'r thema y tymor hwn yw 'Natur Duw'. Buom yn trafod deistiaeth, agnosticiaeth, amldduwiaeth a phantheistiaeth, sy'n swnio'n drwm ond sy'n arbennig o ddiddorol hefyd. Cyfle da i drafod pynciau na fuasem yn eu trafod fel arall.

### Bydd wrth ein Bwrdd

Cafwyd ail gyfarfod y gyfres newydd hon lle mae trafodaeth dros fwyd ar bynciau megis 'Sut un yw Duw i chi?', 'Beth sy'n creu rhyfeddod ynoch?' a 'Beth mae adnabod Duw yn ei olygu i chi?' Mae'n syndod fel mae'r drafodaeth o fudd i bawb sy'n mynychu.

### Munudau i Feddwl

Cofiwch am fyfyrdodau wythnosol ein gweinidog yn y gyfres *Munud i Feddwl* sydd ar ein gwefan. Maen nhw'n peri i ni feddwl am lawer mwy na munud!

### Myfyrdod y Mis ...ac Ati

Mae'r ddau fyfyrdod misol gan ein gweinidog bob tro'n werth eu darllen ac yn ymddangos ar ein gwefan www.minnystreet.org.

### Neges Trydar @MinnyStreet

Chi drydarwyr – cofiwch ddilyn trydar yr eglwys @MinnyStreet.

### Ein gwefan

Mae rhywbeth i bawb yn Minny Street, fel y gwelwch o edrych ar ein gwefan: www.minnystreet.org.

# Y Tabernacl

### Dathlu'r dauganmlwyddiant

Daeth mis y dathlu mawr a neilltuwyd penwythnos olaf mis Hydref yn arbennig i'r achlysur. Roedd cynrychiolaeth helaeth o gyrff eglwysig a dinesig yn ein plith ar y prynhawn Sadwrn a'r pregethwr oedd y Parchg Roy Jenkins. Ar y Sul, gwahoddwyd y Parchg Peter Dewi Richards i bregethu. Drwy gyd-ddigwyddiad hyfryd, roeddem wedi ei dderbyn yn aelod cyflawn o'n heglwys yn ystod y mis.

Roedd arddangosfa o hanes yr eglwys i'w gweld yn ystod y mis, a chyhoeddwyd llyfr *Hanes y Tabernacl* cyn dechrau'r dathlu.

### Detholiad o emynau'r Tabernacl

Mae ein diolch yn fawr i Robert Nicholls am gasglu a dethol emynau a thonau sydd yn gysylltiedig ag Eglwys y Tabernacl. Cawsom gyfle i ddefnyddio'r detholiad yn ein cyrddau unedig ym mis Awst a Medi, a mawr fu'r canmol.

### Glanhau'r capel a'r festri

Daeth llawer o bobl ynghyd, yn ddynion a gwragedd, i lanhau'r capel ddechrau mis Medi. Braf gweld y cynllun wedi ei orffen a'r lle yn edrych yn gyfoes a chroesawgar. Ar 24 Hydref cynhaliwyd y cwrdd gweddi cyntaf yn y festri 'newydd'.


### Bore coffi

Diolch i Calan McGreevy am ei chroeso arferol i'r cyfeillion sy'n dod ynghyd ar fore Mercher. Mawr hefyd oedd y croeso yn y bore coffi ar aelwyd Mari Rogers yn Llanisien ganol Hydref.

### Taith Siân E. Thomas i India

Ddiwedd mis Hydref, teithiodd Siân Thomas gyda gweithwyr Brigâd Sant Ioan i Ogledd India er mwyn cynnig hyfforddiant ac adnoddau i ffoaduriaid o Tibet. Dyma'r drydedd waith i Siân deithio i wledydd sy'n llai ffodus na ni. Mae deg o weithwyr Sant Ioan yng Nghymru yn mynd ar y daith. Ymhyfrydwn yn ymroddiad Siân i les y ddynoliaeth.

## DINESAIR **Rhif 137**



### Ar Draws
1. Meithrinfa i fam a gŵr prysur (7)
5. Can bys yn dal 50 (5)
8. Croten yng nghanol y bwystfilod estron (5)
9. Gradd Aelod Seneddol - nôd anhrydeddus (7)
10. 'Y bicell gre' ----- ----- ----- -----, Agorodd ffynnon i'm glanhau (HJ) (3,3,2,4)
12. Ow! Andy druan wedi'i niweidio (6)
14. Esbonio drwy arogleuo di-ben-draw (6)
17. Arweinydd ar adain y sgrym (12)
21. 'Craig ----- mewn tymhestloedd Craig a ddeil yng ngrym y lli' (SJG) (7)
22. Mae gwddfwisg Tomos Lewis yn creu pennawd (5)
23. 'Mae'r iachawdwriaeth rad yn ----- i bob rhai' (PJ) (5)
24. 'Gwynt yr hydref ruai ----- Crynai'r dref i'w sail' (Crwys) (7)

### I Lawr
1. 'Nid yw'r felin heno'n ----- Yn Nhrefin ym min y môr' (4)
2. Gwylltio deg o'r gwaelod (5)
3. Am y cyntaf i ddechrau recordio alaw swynol (3)
4. Un o radd yn gwneud harddwch (6)
5. Lles iâ yn codi casgen (5)
6. 'Yn dy law mae f'----- Ti sy'n trefnu 'nyddiau i gyd' (WNW) (7)
7. Cynllunio i ail-adeiladu Dulyn i fod yn ganolog (7)
11. Pâr sy'n hanner dwyfol (3)
12. 'Pan ddaw'r nos ----- ----- tawel I ddadwneud cylymau'r dydd' (Elfed) (1'1,5)
13. A fo draig heb ryfelwisg? (7)
15. Rhwyd yng nghanol Abergwesyn (3)
16. Gresyn datgymalu darnau o'r corff (6)
18. Amcan yn y neges (5)
19. 'A mynnwn ----- mwy'n Ei neuadd wen Yn un o'r llestri pridd neu'r cawgiau pren' (Gwenallt) (5)
20. Y cludiant olaf (4)
22. Cywasgu'r trysordai yn breswylfeydd (3)

**Atebion Rhif 135**

**Ar Draws** – 2. Aed; 5. Cedyrn; 7. Impiad; 9. Gwyliadwrus; 10. Troelli; 11. Llarpio; 13. Ymateb; 15. Doniol; 17. Ionawr yn oer; 18. Dihuno; 19. O ba radd; 20. Gôl

**I Lawr** – 1. Dengar; 2. Aneiri; 3. Diadell; 4. Cais; 6. Yn ymestynnu; 8. Pererindota; 10. Try; 12. Odl; 14. Bywiog; 15. Dwyfol; 16. Oernad; 17. Igio

**Enillydd Croesair Rhif 135 -**

**Marian Lake, Llanfihangel-ar-Elái**

Danfonwch eich atebion at Rhian Williams, 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbeina, Caerdydd CF14 6AN erbyn 5 Rhagfyr.

## CYMRODORION CAERDYDD

Agorwyd tymor newydd y Cymrodorion yn festri Capel Minny Street nos Wener 4 Hydref gydag arwisgo'r Llywydd newydd, Rhiannon Gregory.

Teitl cyflwyniad y Llywydd newydd oedd 'Themâu', sef y diddordebau oedd wrth wraidd ei phenderfyniad i lunio'r nofel afaelgar a gyhoeddwyd ganddi yn ystod yr haf, *Aderyn Brith*. Nofel yw hon sy'n seiliedig ar fywyd Maï ar Manac'h, Llydawes wladgarol a gododd o blith y werin i fod yn Arglwyddes drwy briodi Syr Robert Mond, aelod o'r teulu a sefydlodd weithfeydd Mond yng Nghwm Tawe.

Saif dwy thema fel is-adail i'r nofel, sef y meddylfryd Llydewig ar y naill law a'r meddylfryd Almaenig ar y llall. Ffenomen y ceisiodd Rhiannon Gregory ei deall oedd ffyrnigrwydd rhai Llydawiaid yn erbyn yr iaith Lydaweg a'i charedigion. Wedi'r Chwyldro Ffrengig gwelid Llydaweg fel rhwystr i sefydlu *égalité* (unffurfiaeth mewn gwirionedd) ymhlith dinasyddion y Weriniaeth. Hefyd, ystyrid Ffrangeg fel iaith dysg a diwylliant a Llydaweg fel iaith gwerinos wladaidd di-ddysg. Ffyrnigodd y gwrthwynebiad i Lydaweg yn sgil cwymp Ffrainc yn 1940 a pharodrwydd rhai cenedlaetholwyr Llydewig i gydweithredu â'r Almaenwyr.

Natsïaeth yn yr Almaen oedd y ffenomen arall y bu Rhiannon Gregory yn meddwl yn ddwys amdani. Sut gallai cenedl fel yr Almaen, a feddai ar wareiddiad a diwylliant gyda'r mwyaf aruchel a welwyd erioed, gwympo mor gyflym i ddyfnderoedd annynol Natsïaeth? Yn ei thyb hi mae'r ateb yn gorwedd rhywle yn y tyndra rhwng clasuriaeth a rhamantiaeth. Yn y nofel mae'r cymeriad dychmygol, y Cadfridog Kurt von Heyden, yn ymgorfforiad o'r tyndra hwn, ac yn ei ymwybyddiaeth ef cynrychiolir y ddau feddylfryd gan Johann Sebastian Bach ar y naill law a Fredrig Fawr ar y llall.

Diolchodd Wyn James i'r Llywydd am yr olwg ddyfnach a gawsom ganddi ar *Aderyn Brith*.



*Rhiannon Gregory, Llywydd newydd y Cymrodorion, yn cael ei llongyfarch gan y Llywydd ymddeoledig, yr Athro Wyn James.*

# Calendr y Dinesydd • Tachwedd - Ionawr

**Mawrth, 12 Tachwedd**
Cymdeithas y Tabernacl. 'Dafydd William yr Emynydd ac Eglwys Croes-y-parc.' Sgwrs gan yr Athro E. Wyn James yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 12 Tachwedd**
Merched y Wawr Caerdydd. Beti George yn trafod y cyflwr Alzheimer, yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb. Rhagor o fanylion: 029-2075-4379.

**Mawrth-Iau, 12-14 Tachwedd**
Theatr Genedlaethol Cymru a Tandem yn cyflwyno *Pridd* gan Aled Jones Williams, yn Theatr Sherman. Manylion pellach a thocynnau: 029-2064-6900.

**Iau, 14 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Trafodaeth ar dlodi a'i amrywiol agweddau. Siaradwyr: Cathrin Daniel (Cymorth Cristnogol), y Parchg Aled Edwards a myfyrwyr chweched dosbarth Ysgolion Glantaf a Plasmawr. Yng nghapel Bethel, Rhiwbeina, am 7.30 p.m.

**Gwener, 15 Tachwedd**
Cylch Llyfryddol Caerdydd. 'Cerddi'r Goron a Cherddi Eraill.' Sgwrs gan y Prifardd Ifor ap Glyn, yn Ystafell 0.31, Adeilad John Percival (sef Adeilad y Dyniaethau), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m. Cydnabyddir nawdd Llenyddiaeth Cymru. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 16 Tachwedd**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 i rai sydd am loywi eu Cymraeg. Sgwrs am 11.00 a.m. gan yr Athro E. Wyn James ar y testun 'William Salesbury: Y Gair yn Ein Hiaith'. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 18 Tachwedd**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. 'Llên Gwerin'. Sgwrs gan Allan James, yng nghapel Bethany, Heol Llanisien Fach, am 7.30 p.m.

**Llun, 18 Tachwedd**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd. Sgwrs gan y Parchg Ieuan Davies am ei lyfr ar yr Athro Syr John Meurig Thomas, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m. Croeso i bobl nad ydynt yn 'arbenigwyr' gwyddonol.

**Mawrth, 19 Tachwedd**
Cymdeithas Ddiwylliannol Minny Street. 'Hawl i Holi.' Panelwyr: Llŷr Gwyn Lewis, Carys Evans, Rhian Williams a Dyfrig Parri. Cadeirydd: Elinor Patchell. Yn festri Capel Minny Street am 7.30 p.m.

**Mawrth, 19 Tachwedd**
Cymdeithas y Tabernacl. Noson gerddorol yng nghwmni Gareth Rhys Davies, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30 p.m.

**Mercher, 20 Tachwedd**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Datganiad cerddorol gan Joy Cornock (soprano) a Bethan Semmens (telyn), yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m. Diolch i 'Live Music Now'.

**Iau-Sadwrn, 21-3 Tachwedd**
Theatr Bara Caws yn cyflwyno *Llanast!*, cyfieithiad Gareth Miles o *Le Dieu du Carnage* gan Yasmina Reza, yn Theatr Sherman. Manylion pellach a thocynnau: 029-2064-6900.

**Sul, 24 Tachwedd**
Cymanfa Ganu gyda Chorau Unedig Caerdydd yn y Tabernacl, Yr Ais, am 7.45 p.m. Arweinydd: Rob Nicholls; Organydd: Marc Jon Williams. (Rhan o weithgareddau daucanmlwyddiant y Tabernacl eleni.)

**Llun, 25 Tachwedd**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd. Pwyllgor Blynyddol, yng Nghapel Minny Street am 7.30 p.m.

**Mawrth, 26 Tachwedd**
Cymdeithas y Tabernacl. Noson lansio cyfrol 200 mlwyddiant y Tabernacl, yn festri'r Tabernacl, Yr Ais, am 7.30 p.m.

**Gwener, 29 Tachwedd**
Cyngerdd gyda Chôr Meibion Taf yng Nghapel y Crwys, Heol Richmond, am 7.30p.m.

**Llun, 2 Rhagfyr**
Merched y Wawr Cangen Bro Radur. Sioe a Bwyd yn y Bae (pryd bwyd yn *Ffresh* a chyngerdd i ddilyn yng Nghanolfan y Mileniwm).

**Mawrth, 3 Rhagfyr**
Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd: 'Griffith John Williams ac Iolo Morganwg.' Darlith gan yr Athro Prys Morgan i gofio 50 mlwyddiant marw yr Athro G. J. Williams. Fe'i cynhelir yn Ystafell 1.69, Adeilad John Percival (sef Adeilad y Dyniaethau), Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 5.15 p.m. Croeso cynnes i bawb.

**Mawrth, 3 Rhagfyr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Minny Street. Sgwrs gan Carys Whelan, yn festri Capel Minny Street am 7.30 p.m.

**Mawrth, 3 Rhagfyr**
Cyngerdd Cymdeithas Gorawl y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30 p.m. Perfformiad o 'Atgof o'r Sêr' (Robat Arwyn) a detholiadau o'r 'Meseia' (Handel).

**Mawrth, 3 Rhagfyr**
Cylch Cadwgan: Euryn Ogwen Williams yn darllen a thrafod ei waith yng Nghlwb Rygbi Pentyrch, am 8.00 p.m. Cydnabyddir cefnogaeth Llenyddiaeth Cymru.

**Mercher, 4 Rhagfyr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. Gwasanaeth a The Parti Nadolig, yn festri Capel Minny Street am 1.00 p.m. Gŵr gwadd: Parchg Haydn Thomas.

**Iau, 5 Rhagfyr**
Clwb Gwawr Llygaid y Dydd. Gŵyl y Gaeaf yng nghanol y ddinas am 7.30 p.m. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com

**Gwener, 6 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd: 'Cerddoriaeth Nadolig i'r Organ'. Cyflwyniad gan Ieuan Jones yn Eglwys Dewi Sant, Cilgant Sant Andreas, am 7.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

**Llun, 9 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Dathliad Nadolig, yng Nghlwb Golff yr Eglwys Newydd, am 7.00 p.m.

**Llun, 9 Rhagfyr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.00 p.m ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Llun-Sadwrn, 9 Rhagfyr-4 Ionawr**
Sherman Cymru yn cyflwyno *Corina Pavlova a'r Llew sy'n Rhuo* (i blant oedran 3-6), yn Theatr Sherman. Manylion pellach a thocynnau: 029-2064-6900.

**Mawrth, 10 Rhagfyr**
Merched y Wawr Caerdydd. Caiff un o'r aelodau weddnewidiad gan Huw Rees (*Prynhawn Da*), yn neuadd yr Eglwys Fethodistaidd, Westminster Crescent, Cyncoed am 7.30 p.m. Rhagor o fanylion: 029-2075-64379.

**Mawrth, 10 Rhagfyr**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais. Cinio Nadolig yng nghwmni Nic Parry ym mwyty Giovanni am 7.30 p.m.

**Mercher, 11 Rhagfyr**
Gwasanaeth Carolau *Missing Persons Cymru* yn y Tabernacl, Yr Ais, am 7.00 p.m.

**Iau, 12 Rhagfyr**
Cylch Cinio Merched Caerdydd. Noson hwyliog gerddorol yng nghwmni Ieuan Jones, yng Nghlwb Golff Radur am 7.00 p.m ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach: Siân Dowling (029-2075-3670).

**Sadwrn, 14 Rhagfyr**
Bore coffi rhwng 10.30 a 12.00 i rai sydd am loywi eu Cymraeg. Sgwrs am 11.00 a.m. gan Janet a Marc Evans am garol blygain. Yn adeilad yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg, Harriet St, Cathays. Croeso cynnes i bawb.

**Sul-Llun, 15-16 Rhagfyr**
Martyn Geraint a Theatrau Rhondda Cynon Taf yn cyflwyno'r pantomeim, *Draw dros y don*, yn Stiwdio Weston, Canolfan y Mileniwm. Swyddfa Docynnau: 029-2063-6464.

**Mawrth, 17 Rhagfyr**
Cymdeithas Ddiwylliannol Minny Street. Dathlu'r Nadolig yng nghwmni Eirlys Eckley a Jean Salisbury, yn festri Capel Minny Street am 7.30 p.m. Pwnsh a mins peis i ddilyn.

**Mawrth, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina. Gwasanaeth carolau a chanhwyllau dan ofal Gwenda ac Eleri, yng nghapel Bethel, Rhiwbeina, am 11.00 p.m.

**Llun, 6 Ionawr**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills am 7.00 p.m ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach gan Tony Couch (029-2075-3625 neu ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mercher, 8 Ionawr**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd. 'Hen Chwedlau Dyffryn Clwyd'. Sgwrs gan E. Gwynn Matthews, yn festri Capel Minny Street am 2.00 p.m.

**Iau, 9 Ionawr**
Clwb Gwawr Llygaid y Dydd. Cychwyn Newydd yn Institwt Llandaf am 7.45 p.m. Manylion pellach: clwbgwawrcaerdydd@hotmail.com

Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at yr Athro E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; ebost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

# Noson yng Nghwmni'r Parry Isaacs

## Argraffiadau Lois Gwenllian

Rhyw noson ddigon diflas a glawog oedd hi pan welais i'r neges Twitter. Roeddwn i'n methu credu'r hyn a ddarllenais i ddechrau. Oedd hyn wir yn mynd i ddigwydd? Cyngerdd y Parry Isaacs! Caryl Parry Jones a'i theulu. Teulu Caryl Parry Jones am un noson yn unig. Doedd dim dwywaith amdani - rhaid oedd cael tocyn. Clic neu ddau'n ddiweddarach, roedd gen i'r tocyn aur - tybiaf mai fel hyn yr oedd Charlie Bucket yn teimlo pan gafodd o ei docyn aur yntau!




Roedd y gig yn rhan o Ŵyl Ffrinj Caerdydd a oedd yn pontio bwrlwm Gŵyl Sŵn a chyffro WOMEX ac yn parhau â'r gerddoriaeth amrywiol oedd wedi diddanu cannoedd dros y penwythnos. Roedd y gig yn *The Moon Club* ar Stryd Womanby. Fues i erioed yno o'r blaen ac er gwaetha'r ffaith ei fod yn edrych fel fersiwn llai a blerach o Glwb Ifor Bach, mi oedd o'n lle delfrydol i gynnal cyngerdd bach, agos atoch chi. Roedd y cyferbyniad rhwng y fynedfa a'r clwb ei hun bron iawn mor gyferbyniol â'r band metel oedd yn agor y cyngerdd a'r Parry Isaacs! Ar ben grisiau'r fynedfa roedd hen ddesgiau ysgol a chadeiriau bychan cochion gydag ambell i hen stôl a edrychai fel petaent wedi'u dwyn o set yr hen Dderi Arms. Er hynny, roedd yn lle delfrydol i gael llymaid cyn i'r gig ddechrau.

Toc wedi deg fe ddaeth yr awr fawr a chamodd y teulu ar y llwyfan. Pob un mewn du, ond â'i steil ei hun. Dechreuon nhw'r noson trwy ganu un o gyfansoddiadau gwych Caryl, 'Diwedd y Gân'. Dydw i ddim yn deall manylion technegol cerddoriaeth ond gallwn i, hyd yn oed, ddweud eu bod nhw'n canu harmonïau unigryw a dyfeisgar heb eu tebyg. Roedd chwech o'r saith ohonyn nhw'n canu (roedd Mr Myf yn cuddio ym mhen draw'r llwyfan i'n swyno ni gyda'i gordiau gogoneddus). Y gân nesaf i gael



y *Parry Isaac Treatment* oedd '*Landslide*' gan Fleetwood Mac.

Mae 'na rywbeth cyfareddol am Greta Isaac. Dydw i ddim yn siŵr iawn beth, ond mae'n anodd peidio cymryd sylw ohoni pan mae hi'n perfformio. Hyd yn oed yng nghanol y saith ohonynt, roedd 'na rywbeth amdani yn denu fy sylw. Hi ganodd y gân nesaf, un o'i chaneuon ei hun, gyda'i chwiorydd yn ymuno bob hyn a hyn i greu harmonïau hudolus. Dw i'n credu'n gryf (ac yn gobeithio mwy) fod 'na ddyfodol disglair iawn o'i blaen hi.

Bydd unrhyw un sy'n fy adnabod i yn gwybod fy mod i wedi bod, ac yn dal i fod, yn ffan mawr o Eden. Mae Non Parry yn gyfnither i Caryl, ac felly yn amlwg, yn un o'r Parry Isaacs. Felly gallwch ddychmygu fy mod i wedi gobeithio cael o leiaf un gân o eiddo Eden. Mi gawson ni ddwy! Trît!

Un o uchafbwyntiau annisgwyl y noson oedd cân o'r enw *'No Lights'*. Un o ganeuon y band mae Moc Isaac yn chwarae ynddo ydy hi a hon oedd ei foment o i ddisgleirio. Mae ganddo lais roc gwych a dawn gitâr arbennig. Mi wenais drwy gydol y gân. Rhai uchafbwyntiau eraill i mi oedd '*How Sweet It Is (To Be Loved By You)*' [James Taylor] ac 'Esgair Llyn' [tradd./Dafydd Iwan].

Mi allwn i draethu yma am bob cân a gafodd ei chanu - wna i ddim - ond mae'n rhaid i mi sôn am fy ffefryn i o'r set (ac eithrio 'Gorwedd Gyda'i Nerth'), sef fersiwn acapella o gân hyfryd y dawnus Sara Bareilles, '*Once Upon Another Time*'. Dim ond Elan, Miriam a Greta oedd yn canu hon a llwyddon nhw i gael pob un aelod o'r gynulleidfa i wrando'n astud. Gallech chi fod wedi clywed pin yn syrthio ar y llawr. Perfformiad gwirioneddol wych.

Mae'n anodd dod â rhywbeth fel hwn i ben gan swnio'n ddiffuant. Dw i'n gobeithio y gwnân nhw rywbeth fel hyn eto er mwyn i'r rhai a gollodd y cyngerdd gael llawn werthfawrogi'r teulu hwn. Gallaf ddweud, a'm llaw ar fy nghalon, ei bod hi'n noson arbennig yng nghwmni un o deuluoedd mwyaf adnabyddus Cymru - teulu amryddawn, cyfeillgar a dirodres - y Parry Isaacs.

Gwefan y Dinesydd: www.dinesydd.com

# CHWARAEON

## CLWB CYMRIC

Dwy gêm Gyngrhair a gafodd y tîm cyntaf y mis diwethaf. Yn gyntaf collwyd 2-1 yn erbyn Pontyclun, a gôl Osian Pritchard yn yr ail hanner ddim cweit yn ddigon i gael pwynt. Ond roedd gwell hanes ar ddiwedd y mis wrth guro Baglan Dragons 3-1, y goliau gan Rhys Davies, Gethin Long a Tom Pritchard. Bu un gêm gwpan hefyd, ond yn anffodus honno oedd gêm gwpan ola'r tymor wrth i ni golli o ddwy gôl i un yn erbyn Cornelly United, er mai braf oedd cael Cymro Cymraeg yn dyfarnu ac yntau'n hapus i gyfathrebu yn Gymraeg gyda chwaraewyr Cymric yn ystod y gêm. Wedi dweud hynny, doedd dim awgrym fod hyn wedi dylanwadu ar bethau wrth i'r dyfarnwr roi cic o'r smotyn i Cornelly, a dangos cerdyn coch i gôl-geidwad Cymric!



*Wal amddiffynnol Cymric yn paratoi am gic rydd Pontyclun.*

Mae'n rhwystredig bod y glaw a diffyg chwaraewyr gan y gwrthwynebwyr wedi golygu prinder gemau i'r ail dîm. Roedd canlyniad y ffactorau hyn i'w weld yn unig gêm y mis pan gollwyd 4-1 yn erbyn Canton Rangers yng Nghwpan yr Arglwydd Ninian.

Mae'r tîm ieuenctid (CIC) bellach wedi cael buddugoliaethau cyntaf y tymor, ar ôl curo Porthcawl (3-0) a Baglan (2-1); braf yw gweld rhai o'r bois ifanc, Aled Burd a Harry Burge, yn cael cyfle gyda'r tîm cyntaf.

## C.R.I.C.C.

**CRICC yn cystadlu yng Nghwpan y Gleision Dan 13**

[neu'r *Blues Cup* gan nad oes gair o Gymraeg yn rhan o'r enw brand!]

Gymry Cymraeg sy'n falch o'u hiaith ac yn cefnogi'r *Blues*, codwch eich llais dros weld y Gymraeg ar ddillad chwaraewyr ein rhanbarth!

Hanes gêm CRICC yn erbyn Llandaf: **Hanner cyntaf >** Cais + Trosiad gan Ioan Lloyd; Cais arall gan Ioan Lloyd a droswyd gan 'Llew' Morgan; Cais Tommy Owens + Trosiad Ioan Lloyd; Cais Aron Arthur. Sgôr 26-0. **Ail hanner >** Cais Llandaf; Cais arall gan Tommy Owens + Trosiad Ioan Lloyd; Cais arall + Trosiad gan Aron Arthur; Cais Llandaf. Sgôr derfynol **CRICC 40 v 10 Llandaf**.

Rwy'n siwr y byddai unrhyw un a welodd y gêm hon wedi ei mwynhau yn fwy na nifer o'r gêmau a welir ar faes ein rhanbarth. Bu'n rhaid i CRICC amddiffyn yn ddewr sawl tro i rwystro Llandaf rhag sgorio ac roedd yn gêm fwy cystadleuol o lawer nag y mae'r canlyniad yn ei awgrymu. Y neges: dewch i gefnogi CRICC - clwb sydd am ddangos parch i'r iaith - ac yn ôl pob tebyg cewch fwynhad yn gwylio chwaraewyr gorau'r dyfodol yn arddangos eu talent.



*Carfan Dan 13 yn Noson Wobrwyo CRICC ym mis Mai pan oedd Rhys Priestland yn ŵr gwadd. Hefyd yn y rhes gefn mae Phill Thomas, Aled Williams ac Arthur Emyr - tri o'r tadau sy'n hyfforddi'r grŵp.*